# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol

# yn Uned Pobl Ifanc y Parc

## Ar gyfer blwyddyn adrodd
## 1 Mawrth 2020 – 28 Chwefror 2021

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2021

# Cynnwys

| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 8 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 9 |
| 6. | Iechyd a lles | 11 |
| 7. | Addysg a hyfforddiant | 12 |
| 8. | Cynnydd tuag at drosglwyddo neu ryddhau | 14 |
| 9. | Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol | 15 |

**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae gan uned pobl ifanc y Parc ddwy uned, Eco a Golff, sy'n gartref i 28 a 32 o garcharorion ifanc, yn y drefn honno. Mae addysg yn digwydd mewn ardal ddiogel ar wahân wrth ymyl yr uned Golff, a man arlwyo annibynnol lle gall y plant a'r bobl ifanc goginio fel rhan o raglen addysg a hyfforddiant yn ogystal ag ar gyfer darparu prydau bwyd o bryd i'w gilydd. Mae gan y ddwy uned ardal ymarfer corff, gyda seddi a gwair artiffisial, ac mae'r ddwy wedi peintio murluniau ar y waliau, i gynnal yr ardal hamddenol.

Mae'r trefniadau sydd ar waith yn y ddwy asgell yr un fath, ac mae'r ystod lawn o raglenni a breintiau haeddiannol yn cael eu cynnig i bawb yr un fath.

Mae'r aelodau'n mynd i gyfarfodydd diogelu misol yn ogystal â'r fforwm pobl ifanc a gynhelir ar yr unedau o bell, ac mae'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â rheoli achosion wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

# 3. Crynodeb gweithredol

## 3.1 Cefndir yr adroddiad

Mae pandemig Covid-19 yn cwmpasu holl gyfnod yr adroddiad hwn. Cytunodd y Bwrdd i roi’r gorau i ymweliadau yn syth ar ôl i gyfyngiadau symud cyntaf Covid-19 gael eu cyhoeddi, ac yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ni chafwyd ymweliadau wyneb yn wyneb. Bron ar unwaith, ymddiswyddodd tri aelod, gydag un arall yn trosglwyddo i garchar arall ac aelod arall yn ymddiswyddo yn ystod y cyfnod.

Parhaodd y Cyfarwyddwr a’r Dirprwy Gyfarwyddwr i sicrhau eu bod ar gael i’r Cadeirydd a darparwyd gwybodaeth gyswllt berthnasol i sicrhau y gallai’r aelodau hynny a oedd ar ôl gysylltu â’r staff priodol.

Mae ein sylwadau’n seiliedig ar fonitro o bell, trafodaethau rhwng Cadeirydd y Bwrdd a phennaeth a dirprwy bennaeth yr Uned Polisi Ieuenctid, a thrafodaethau ad hoc rhwng rhai o aelodau’r Bwrdd ac aelodau staff, i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i lunio’r adroddiad hwn. Roedd y Bwrdd hefyd yn gallu cael gafael ar ddata carchardai a chofnodion cyfarfodydd a mynd i gyfarfodydd diogelu a fforymau pobl ifanc drwy gyswllt fideo a thros y ffôn.

## 3.2 Prif farnau

Roedd yn amlwg yn yr ystâd oedolion yn y Parc, ac, yn wir, yn ystâd ehangach y carchar, bod y pandemig wedi amlygu a gwaethygu problemau presennol, yn bennaf yng nghyswllt iechyd cyffredinol pobl, eu hiechyd meddwl a’u haddysg.

Mae’r dystiolaeth o newidiadau yn y Parc i normaleiddio newidiadau i’r drefn yn dilyn y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020 nid yn unig yn adlewyrchu gwaith ac ymrwymiad yr holl staff i gyflawni’r newidiadau hyn, ond maent hefyd yn adlewyrchu’r ffordd roeddent yn cysylltu ac yn cyfathrebu â’r bobl ifanc i nodi eu bwriad i wella eu hamgylchedd mor gyflym a diogel ag yr oedd yn ymarferol.

### Pa mor ddiogel yw’r sefydliad?

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithredoedd treisgar, o’i gymharu â’r saith mis uchaf yn ystod y flwyddyn flaenorol, lle cofnodwyd 109 o weithredoedd. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, y ffigurau cymharol oedd 23.

Gostyngodd nifer y digwyddiadau’n sylweddol drwy gydol y flwyddyn, gyda’r ffigur misol uchaf 66% yn is na’r flwyddyn flaenorol.

Gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o rym yn ystod y cyfnod, gan ddangos gostyngiad misol cyfartalog o tua 75%.

Roedd nifer y dyfarniadau’n gyson is nag yn y flwyddyn flaenorol, gan ddangos gostyngiad o tua 70%, gyda thystiolaeth i gefnogi bod staff yn defnyddio’r broses ddyfarnu mewn achosion mwy difrifol yn unig a lle rhoddwyd cynnig ar ddulliau eraill cyn dyfarnu.

**Pa mor deg a dyngarol gaiff pobl ifanc eu trin?**

Roedd tri deg wyth y cant o ddigwyddiadau a 42% o ddigwyddiadau treisgar i'w priodoli i bobl ifanc dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a oedd yn cynrychioli 44.5% o'r boblogaeth YPU.

Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y cyfyngiadau eu rhoi ar waith ac roedd yr amser allan o'r ystafell wedi'i gyfyngu i awr. Ar ddiwedd yr wythnos gyntaf – hynny yw, mis Ebrill i fis Mai 2020 – cynyddwyd hyn i bedair awr y dydd, gyda chynnydd parhaus hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd, pan oedd carcharorion allan o'u cell am wyth awr y dydd.

O fis Ebrill 2020 ymlaen, roedd y bobl ifanc yn gweithio mewn grwpiau o dri, ac o fis Awst mewn grwpiau o chwech, gan godi i 12 o fis Medi ymlaen.

I ddechrau, roedd y bobl ifanc yn cael eu prydau bwyd yn eu hystafelloedd, ond o fis Mai ymlaen roeddent yn rhannu eu prydau yn eu grwpiau cohort, fel y cofnodwyd yn y paragraff blaenorol.

I ddechrau, rhoddwyd y gorau i ffitrwydd y tu allan, ond fe'i hailddechreuwyd ar 30 Mawrth a pharhaodd drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn.

Er bod yr ymweliadau wedi'u lleihau yn syth, dechreuodd yr ymweliadau dros y we ddiwedd mis Mawrth, gyda'r ymweliadau cymdeithasol a'r rhith-ymweliadau'n cael eu cynnal ddechrau mis Awst.

Roedd staff Barnardo's wedi tynnu'n ôl o'r sefydliad ac roeddent yn gweithredu o bell, ond fe wnaethant ddychwelyd i wneud gwaith gweinyddol o fis Awst ymlaen, gan ddychwelyd yn fwy normal o fis Chwefror 2021 ymlaen.

Mae'r siart canlynol yn cynrychioli'r drefn yn y Parc ym mis Mehefin 2020, sy'n dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran newid statws a gwella lles ac addysg pobl ifanc.

| **Maes cyflenwi** | **I gynnwys (nid yw'n rhestr gyflawn)** | **Uned Pobl Ifanc y Parc** |
|---|---|---|
| Prydau Bwyd | Tri phryd amrywiol y dydd | Bob trydydd diwrnod, cinio/swper allan o'r ystafell – *nawr mewn grwpiau o uchafswm o chwech* |
| Meddyginiaeth | Mynediad at feddyginiaeth | Dim problemau mynediad |
| Gofal Iechyd | Mynediad at wasanaethau iechyd | Dim problemau mynediad |
| Diogelwch | Hylendid dwylo da, cadw pellter o 2m | Cawod am 30 munud bob dydd, 10 munud o amser glanhau bob dydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r bechgyn yn teimlo'n ddiogel – neb yn cael eu goruchwylio'n fanylach |
| Addysg a gweithgareddau | Gyda strwythur a threfn | Sesiwn hanner diwrnod yn yr ystafell ddosbarth a 45 munud yn y gampfa ar benwythnosau<br>*(Pedair awr 45 munud y tu allan i'r ystafell o ddydd Llun i ddydd Gwener a thair awr ar y penwythnos – cae pêl-droed ar gael saith diwrnod yr wythnos)* |
| Llesiant | Archwiliadau lles | Archwiliadau lles rheolaidd, ymarfer corff 30 munud y dydd a 30 munud ychwanegol o ymarfer corff bob yn ail noson |
| Cynllunio ar gyfer argyfwng | Dull integredig | Ymgynghoriadau â FACTS drwy Skype |
| Cysylltiad | Teulu a ffrindiau | Grwpiau teulu o chwech (*wedi codi o dri*); ymweliadau ar gyfer wyth o bobl ifanc ar gael bob dydd a chredyd ffôn ychwanegol a briff rhanddeiliaid bob pythefnos (wedi cytuno i symud i bob mis o fis Mehefin 2020 ymlaen) |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

### 4. Diogelwch

Er y gellid ystyried bod y newidiadau sylweddol yn y drefn yn cyfrannu at wella diogelwch, mae'r Bwrdd o'r farn bod y staff, yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, wedi gweithio'n effeithiol i wneud y carchar yn lle diogel i'r bobl ifanc.

Gweithiodd holl staff yr Uned yn y Parc yn effeithiol, gan weithio'n barhaus i lunio gweithdrefnau gweithio cadarnhaol ac effeithiol gyda'r bobl ifanc.

Ar draws yr unedau, cafwyd gostyngiadau yn nifer yr ymosodiadau, ymosodiadau difrifol, ymosodiadau a brofwyd, defnyddio grym, dyfarniadau, digwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt ac ymladd.

Roedd cyfnod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu pandemig Covid-19 ac ystyrir bod camau cychwynnol a pharhaus yr uwch reolwyr a'r staff wrth roi protocolau priodol ar waith yn cael eu cydnabod gan bobl ifanc fel rhai angenrheidiol a phriodol.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020 fod 89.3% o bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ar yr Uned, sy'n adlewyrchu ymrwymiad a gwaith caled yr holl staff yn yr uned.

Roedd cyfanswm y digwyddiadau yn y cyfnod adrodd yn 98, i lawr o 251 yn y cyfnod blaenorol; roedd cyfanswm o 46 digwyddiad treisgar, i lawr o 165; roedd saith achos o hunan-niweidio, i lawr o 38; ac roedd 123 o ddigwyddiadau yn ymwneud â defnyddio grym, i lawr o 495 yn y cyfnod blaenorol. Efallai fod rhywfaint o hyn oherwydd bod y boblogaeth yn llai, ond dylid cydnabod yr ymdrechion a wnaeth yr uwch dîm rheoli a'r holl staff, yn y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau amgylchedd trefnus.

Mae Uned y Parc wedi mabwysiadu proses o ddatrys gwrthdaro, lle mai'r sgil yw rheoli gwrthdaro mewn ffordd y gall pobl ddod at ei gilydd, cytuno a dod â phethau i dir canol.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety

Er bod problem achlysurol wedi codi gyda'r cyflenwad dŵr poeth, cafwyd datrysiad prydlon bob amser.

Roedd yr esgyll bob amser yn cael eu cadw'n lân ac yn drefnus, gyda phobl ifanc yn cael eu hannog i barchu eu hamgylchedd a chadw eu celloedd yn daclus.

## 5.2 Cadw ar wahân

Mae T6 yn gyfleuster cadw ar wahân fel sydd yn yr ystad oedolion ac fe'i defnyddir ar gyfer pobl ifanc y mae'n rhaid gofalu amdanynt i ffwrdd o'r unedau preswyl.

## 5.3 Perthynas staff/pobl ifanc

Er mwyn deall diwylliant yr Uned a sicrhau bod yr holl staff yn chwarae rhan yn yr ymdrech i ddeall beth yw'r diwylliant yn y sefydliad, mae swyddog lles wedi cael ei nodi yn yr uned. Bydd hyn yn caniatáu i'r tîm rheoli osod y safon – llais i staff gyfrannu at sicrhau bod y sefydliad yn ddiogel, yn weddus, yn obeithiol ac yn gefnogol i newid, cynnydd a rhoi terfyn ar droseddu.

Gan weithio yn yr Uned, darperir cefnogaeth ac arweiniad i'r holl staff; bydd staff yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws i ystyried y diwylliant presennol yn yr Uned; bydd themâu allweddol yn cael eu nodi a'u hadrodd i'r tîm rheoli.

Dyma'r chwe maes a drafodir yn y grwpiau ffocws:

1. **Stories art Parc** – Dyma straeon sy'n anfarwoli hanes y carchar
2. **Symbolau** – Dyma sut mae'r gweithle'n diffinio ei hun (logo, cod gwisg, brandio)
3. **Strwythurau pŵer** – Pwy sy'n cael y dylanwad mwyaf dros y penderfyniadau?
4. **Strwythurau sefydliadol** – Strwythurau pŵer o fewn yr adran
5. **Systemau rheoli** – Sut mae'r gweithle'n cael ei reoli?
6. **Arferion a threfn** – Ymddygiad dyddiol pobl, sut maen nhw'n ymwneud â'i gilydd ac yn cydnabod ei gilydd.

## 5.4 Amrywiaeth a chynhwysiant

Cynhelir digwyddiadau calendr rheolaidd nid yn unig i wella dealltwriaeth pobl ifanc o ddiwylliannau eraill, ond hefyd i gydnabod pobl ag anableddau corfforol a/neu feddyliol a'u rhyw.

Roedd saith deg pump y cant o'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mis Hydref 2020 yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o ran y naw nodwedd warchodedig, a hefyd bod gwahaniaethu'n cael ei herio gan staff.

- Ymateb uchel – cwblhaodd 26 o'r 32 o fechgyn yn y Parc yr arolwg (81% o'r holl bobl ifanc yn y Parc yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Mai 2020)

- Lefel uchel o deimlo’n gadarnhaol gyda’r sefyllfa bresennol – nododd 17 o fechgyn eu bod yn teimlo’n gadarnhaol, o’i gymharu â chwech o fechgyn a roddodd ymateb negyddol (nododd 65% o’r bobl ifanc ymateb cadarnhaol)
- O’i gymharu â’r sefyllfa cyn Covid-19, roedd nifer y bobl ifanc a oedd yn dangos ymateb cadarnhaol wedi gostwng ychydig; ar yr un pryd, roedd y nifer a oedd yn sgorio ymateb negyddol wedi cynyddu o un cyn Covid-19 i bump
- Roedd bron pob person ifanc yn teimlo’n iach (96%)
- Roedd pedwar o bob pump o fechgyn yn teimlo’n gadarnhaol wrth siarad ag eraill am sut roedden nhw’n teimlo
- Diffyg cyswllt gyda’r teulu ac eraill, ac amser yn y gell oedd y rhannau anoddaf o’r sefyllfa bresennol
- Roedd pobl ifanc yn teimlo’n gadarnhaol am ymateb Parc i Covid-19, yn enwedig y defnydd o PlayStations
- Roedd pobl ifanc eisiau datblygu’r drefn ymhellach, o ran mwy o amser allan o’r gell, mwy o gymdeithasu, mwy o addysg, mwy o gampfa a mwy o fwyd.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Ymarfer corff, amser allan o'r gell, campfa

Gan gofio bod yr adroddiad yn cyd-daro â 12 mis cyntaf y pandemig, llwyddodd yr Uwch Dîm Rheoli yn y Parc i ganolbwyntio'n gynnar ar sut y gallent ddychwelyd i drefn fwy arferol. O gynhared â mis Mai 2020, roedd pobl ifanc allan o'u celloedd am hyd at bedair awr y dydd, gyda dwy awr o addysg mewn grwpiau o dri ac yn gwneud ymarfer corff y tu allan ac yn y gampfa. Roedd hon yn broses ac nid yn ddigwyddiad ac erbyn mis Ionawr 2021 roedd yr amser y tu allan i'r gell yn 10 awr y dydd, gyda 4.5 awr o addysg yn rhan ohoni, gan gwrdd a bwyta mewn grwpiau o hyd at 15, gyda gweithgareddau cyfoethogi dros y penwythnos yn cael eu hadfer o fis Tachwedd 2020 ymlaen.

# 7. Addysg a hyfforddiant

## 7.1 Addysg

Ers y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, roedd rhai cyfyngiadau ar y ddarpariaeth addysg. Cafodd ei chloi am yr wythnos gyntaf ac yna gostyngwyd yr addysg wyneb yn wyneb, gan ddarparu addysg i un asgell yn y bore a'r asgell arall yn y prynhawn. Cafodd nifer y dosbarthiadau eu haneru (ar gyfer cadw pellter cymdeithasol) ond llwyddodd y staff i gynnig pob pwnc i bob dysgwr, hyd yn oed yn rhan gyntaf y cyfyngiadau symud.

Parhaodd hyn tan ddiwedd mis Awst, pan newidiodd y gweithdrefnau i gael pob dysgwr allan (addysg wyneb yn wyneb) am oddeutu pedair awr y dydd (a oedd yn bump fel arfer mewn amgylchiadau arferol). Roedd nifer y llwybrau hefyd wedi cynyddu o dri i bedwar.

Nid oedd addysg ar y teledu, gan fod addysg wyneb yn wyneb wedi cael ei hadfer ar ôl wythnos yn unig o gyfyngiadau symud llawn.

Mynychodd pob person ifanc addysg, gydag ychydig iawn yn gwrthod mynychu drwy'r amser.

Cafodd pob dysgwr waith ychwanegol gan eu hathrawon – hynny yw, os oedd ganddynt fathemateg yn y bore, cawsant waith ychwanegol y gallent ei wneud yn y gell.

Prin oedd yr effaith ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan fod staff yn gallu cynnig addysg wyneb yn wyneb a pharhau i roi cymorth ychwanegol i'r rhai a nodwyd.

Yr unig newid oedd bod yr amserlen yn gytbwys i bawb (yr un mynediad i bob pwnc yn y cwricwlwm). Pan fydd cadw pellter cymdeithasol yn dod i ben, bydd cyfle i gynnig mwy o ddewis llwybr pwrpasol i ddysgwyr – er enghraifft, y llwybr coginio, lle bydd ganddynt fwy o fynediad at goginio nag eraill wrth iddynt ddewis y llwybr hwn.

## 7.2 Llyfrgell

Roedd darpariaeth y llyfrgell yn cael ei gynnig fesul un (ac mae'n dal i gael ei darparu fel hyn). Mae llyfrgellydd yn ymweld bob dydd Mercher ac yn gweld 100% o'r bobl ifanc. Mae hi'n dod â llyfrau y mae unigolion yn gofyn amdanynt ac mae hi'n cymryd archebion ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ddarllen llyfrau/awduron penodol. Mae'r llyfrgell bob amser ar gael i'r rhai sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer gwasanaethau 2 (prif faes addysg), a gall athrawon a phobl ifanc bori ar unrhyw adeg. Denwyd benthycwyr newydd i'r llyfrgell a rhoddodd y llyfrgell gyfanswm o 424 o lyfrau i bobl ifanc.

## 7.3 Hyfforddiant galwedigaethol

Drwy gydol y cyfnod, roedd hyfforddiant galwedigaethol wedi dioddef oherwydd Covid-19 a'r broses o roi'r gorau i ryddhau ar drwydded dros dro.

Fodd bynnag, roedd cegin yn yr uned Golff, lle’r oedd pobl ifanc, yn dibynnu ar y drefn ar y pryd, yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau paratoi a choginio bwyd, a pharatoi eu prydau eu hunain ar benwythnosau.

# 8. Camu ymlaen at drosglwyddo neu ryddhau

## 8.1 Rheoli achosion a chamu ymlaen

Ar hyn o bryd mae gan yr Uned saith swyddog tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWTs), sy'n rheoli achosion o'r dechrau i'r diwedd, o'u derbyn i'w rhyddhau yn y gymuned, ar gyfer pob person ifanc.

Mae hyn yn caniatáu i'r bobl ifanc gael cysondeb wrth gynllunio eu dedfryd, gan eu hannog i gydweithio â'u gweithiwr NEWT yn y ddalfa ac, ar ôl eu rhyddhau, mae hynny'n adeiladu ar eu cryfderau a'u nodau i'w helpu i symud eu hunain o fod yn dreisgar i fod o blaid cymdeithasu.

Mae gweithiwr NEWT yn darparu cymorth personol unigol, sy'n cynnwys nodi'r naratif, y cryfderau a'r nodau o blaid troseddu, hunaniaeth o blaid cymdeithasu a'r llwybr tuag at gyflawni hyn. Dilynir hyn gan gymorth strwythurol unigol, gan annog y bobl ifanc i gyfrannu drwy bennu nodau priodol a fydd yn helpu i ddatblygu meysydd o gryfder a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys llety; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; cyffuriau ac alcohol; plant a theuluoedd; agweddau, meddwl ac ymddygiad; iechyd; a chyllid a dyled.

### 8.2 Cyswllt â theulu

Roedd yr adborth gan y bobl ifanc yn ystyriol, i'r graddau nad oeddent am i'w teuluoedd ymweld a wynebu'r risg o ddal Covid-19. Tua diwedd mis Ebrill 2020, dechreuwyd rhaglen o alwadau Skype, gydag Ymweliadau Porffor (galwadau fideo) yn cael eu hychwanegu pan oeddent ar gael. Wrth gwrs, roedd cyfnodau lle roedd y canllawiau'n caniatáu ymweliadau wyneb yn wyneb.

## 8.3 Cynllunio Ailsefydlu

Defnyddiwyd dull cyfannol i gefnogi'r bobl ifanc o ran trosglwyddo neu adsefydlu'n llwyddiannus, a ddechreuodd yn eu cyfarfod cyntaf i gynllunio dedfrydau neu remand.

Gweithiodd gweithiwr NEWT yn agos gyda'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau troseddwyr ifanc i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r gymuned ar ôl rhyddhau neu drosglwyddo i sefydliad arall fel bod yr holl fesurau ymarferol ar waith cyn rhyddhau neu drosglwyddo, a bod gan y bobl ifanc gynllun clir i sicrhau cefnogaeth barhaus a chyson.

# 9. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Er mwyn ymgymryd â'i gyfrifoldeb i fonitro triniaeth pobl ifanc yn y Parc, byddai'r Bwrdd fel arfer yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn sawl ffordd.

Yn ystod ymweliadau rota, mae aelodau'r Bwrdd yn ymateb i geisiadau, ac yn monitro ar draws holl feysydd yr Uned; fodd bynnag, fel y nodwyd, roedd yr holl fonitro drwy gydol y cyfnod hwn yn digwydd o bell.

Byddai aelodau unigol ac ar y cyd fel arfer yn ymateb i geisiadau pobl ifanc, drwy ymweld â phobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o'u problemau ac ymchwilio i'w cwynion drwy drafod y mater(ion) gyda'r staff perthnasol sy'n gyfrifol. Fodd bynnag, cafodd y broses hon ei hatal gan nad oedd aelodau'n mynychu'r Uned.

Ar ddechrau pandemig Covid-19, cawsom dri ymddiswyddiad ar unwaith a chais am drosglwyddiad am resymau daearyddol, gan adael y Bwrdd gyda dim ond pum aelod, nad oeddent yn gallu ymweld â charchardai am resymau unigol.

Yn bennaf, rydym wedi parhau i weithio i gyflawni ein dyletswyddau o bell, gyda phwyntiau cyswllt penodol ar gyfer unigolion a meysydd pwnc unigol. Un o ganlyniadau hyn oedd tarfu difrifol ar gyswllt uniongyrchol â charcharorion a chyfyngu ar ein gallu i ddelio â cheisiadau, oherwydd lefelau uchel o absenoldeb staff o ganlyniad i'r pandemig a'n hanallu i ymweld.

Ni dderbyniodd y Bwrdd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod adrodd.

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | 17 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 8 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 5 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | - |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.